COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 6 TACHWEDD 2024 10:00

Presennol

Y Cynghorydd N Farr – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| M J Evans | M Lewis | JC Spanswick |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| A R Berrow | P Davies | D M Hughes | M Jones |
| RL Penhale-Thomas | A Wathan | AJ Williams | HM Williams |
| E D Winstanley | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Cynghorydd J Gebbie, Y Cynghorydd R Goode, Paul Miles

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Zoe Edwards | Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldebau |
| Kirsty Williams | Rheolwr Partneriaethau a CSP |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiant

Gwnaeth y Cynghorydd Ross Penhale-Thomas ddatganiad o fuddiant personol gan ei fod yn gyflogedig gan elusen tai sy'n arbenigo mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a
Chynhwysiant

Datganodd y Cynghorydd Winstanley fuddiant yn eitem 5 gan ei bod yn gweithio i AWEN, sydd wedi cyfrannu at fentrau sydd wedi creu rhan o'r adroddiad.

## 51. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 17.07.2024 fel rhai cywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Tachwedd 2024 |

## 52. Adroddiad Blynyddol Cydlyniad Cymunedol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Rheolwr Partneriaeth a CSP yr adroddiad hwn sy'n manylu ar y gwaith sydd wedi'i wneud o fewn Bae'r Gorllewin ar brosiectau er mwyn cynyddu cydlyniad cymunedol drwy ymwybyddiaeth, atgyfnerthu perthnasoedd rhwng cymunedau a chyrff cyhoeddus a darparu hyfforddiant.<br><br>Cododd Aelodau'r Pwyllgor gwestiynau am bynciau gan gynnwys:<br>• Y rhesymeg y tu ôl i swydd agored Swyddog Cydlyniad Cymdeithasol a grybwyllir yn yr adroddiad, yn dilyn secondiad i Gyngor Abertawe.<br>• Mesur llwyddiant meini prawf a gwerth ychwanegol.<br>• Annog cyfranogiad.<br>• Ymatebion i densiynau yn y gymuned ac aflonyddwch cyhoeddus.<br><br>Aed i'r afael â'r cwestiynau hyn gan y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid a'r Rheolwr Partneriaeth a CSP, gan nodi'r angen i gydbwyso'r angen am ddatblygu gweithwyr gydag anghenion y sefydliad i staffio rolau presennol a chan fynegi dymuniad i weithio ar draws timau er mwyn sicrhau bod unrhyw adborth a gwelliannau yn gallu cael eu rhoi ar waith.<br><br>PENDERFYNWYD: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad, gan holi, yn ogystal a allai Heddlu De Cymru fynychu cyfarfod yn y dyfodol er mwyn trafod ymhellach faterion ynghylch diogelu cymunedau rhag camwybodaeth posib ac anhrefn. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Tachwedd 2024 |

| | |
|---|---|
| | |

**53. Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid er mwyn diweddaru'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed er mwyn symud amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor yn eu blaen.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch pynciau megis:<br>• Eglurder ynghylch manylion y tu ôl i'r amcanion unigol.<br>• Amserlen ar gyfer cwblhau rhannu'r E-Ddysgu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i 'r holl staff.<br>• Unrhyw ddiweddariadau ynghylch y Protocol Gofalwyr a ddatblygwyd o ddeddfwriaeth y llywodraeth yn ganolog.<br>• P'un ai a ellid dwyn cymhariaeth rhwng demograffeg Pen-y-bont ar Ogwr ac ystadegau nodweddion gwarchodedig yn erbyn gweithlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac Aelodau etholedig.<br>• Casglu data a dadansoddi arolygon bodlonrwydd a gynhaliwyd gan swyddogion.<br>• Cyfraddau ymgyrraedd a chyfranogi ymgynghoriadau cyhoeddus.<br>• Cymorth a gynigir i ysgolion ac athrawon o fewn Sir Pen-y-bont ar Ogwr.<br>• Y rhesymau dros golledion o ran staff ac isadeiledd er mwyn casglu data ar staff yn gadael.<br>• Data am gynlluniau gweithredu o'r flwyddyn flaenorol.<br><br>Ymatebwyd i'r ymholiadau yma gan y Cadeirydd, y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Rheolwr Partneriaethau a CSP a'r Rheolwr Pobl Ifanc c Ymgynghori ar Ymgysylltu a Chydraddoldeb, gan nod y byddai'r adran Adnoddau Dynol mewn gwell sefyllfa i ateb rhai o'r cwestiynau a ofynnwyd, a chan ymrwymo i roi ystyriaeth i awgrymiadau ynghylch sut y gellir fframio a dadansoddi data yn ychwanegol wrth symud ymlaen. Yn ogystal, ceisiwyd sicrhau manylion pellach am ffigyrau ysgolion oedd heb fod yn cynnwys ysgolion, ac yn eu cynnwys yn dilyn y cyfarfod yn ogystal â cheisio sicrhau atebion gan AD ynghylch cwestiynau nad oedd modd eu cyflwyno iddynt yn ystod y cyfarfod.<br><br>PENDERFYNWYD: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad. Cafodd pryderon ynghylch hygyrchedd at fanylion yr adroddiad hefyd eu codi gan y Pwyllgor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Tachwedd 2024 |

## 54. Diweddariad Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Rheolwr Partneriaethau a CSP yr adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor ar gamau er mwyn rhoi amcanion Gwrth-hiliol y Cyngor ar waith, gan nodi angen oedd wedi'i hadnabod er mwyn mynd ymhellach yn y flwyddyn a aeth heibio a chan ganolbwyntio ar sawl prif faes polisi i sicrhau bod Cymru yn Wrth-hiliol erbyn 2030. Roedd y fenter hon hefyd yn golygu gweithio ochr yn ochra gydag amrywiol dimau eraill o fewn y Cyngor yn ogystal â phartneriaid allanol.<br><br>Gofynnodd y Cynghorwyr gwestiynau am yr Ap Streetsnap a'r costau ychwanegol oedd ynghlwm wrth yr amcanion. Cawsant eu hateb gan y Rheolwr Partneriaeth a CSP, gan grybwyll y gall sefydliadau rhanbarthol megis Tîm Cydlyniant Cymunedol Bae'r Gorllewin fod o gymorth mawr er mwyn sicrhau bod cymunedau'n gynhwysol ac yn groesawgar.<br><br>PENDERFYNWYD: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Tachwedd 2024 |

## 55. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 6 Tachwedd 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 11:19